



Trefi a
Dinasoedd
Natur



**Sut i sefydlu rhaglen
wirfoddoli dinas-gyfan**

Tyfu'n gryfach gyda'n gilydd



Galluogi pobl a natur i dyfu'n gryfach gyda'i gilydd drwy sefydlu rhaglen wirfoddoli man gwyrdd ar draws eich tref neu ddinas.

Mae gan y canllaw hwn bedair carreg gamu i'ch helpu i sefydlu rhaglen sy'n gweithio gyda'ch cymunedau, gyda phwyntiau gweithredu allweddol ac ysgogwyr meddwl ar hyd y ffordd.

**Strategaeth
a dull**

**Gallu a
strwythur**

**Systemau a
phrosesau**

**Brandio ac
ymwybyddiaeth**



Strategaeth a dull

Mae'r cam hwn yn eich helpu i amlinellu'r darlun cyfan o beth allai rhaglen wirfoddoli ei olygu i'ch mannau gwyrdd, sut mae'n debygol o edrych a sut allai cymunedau lleol gymryd rhan.

Dyma ychydig o bwyntiau gweithredu allweddol i ddechrau arni:

- Ystyriwch beth ydych eisiau ei gyflawni drwy gynyddu gweithgareddau gwirfoddoli yn eich mannau gwyrdd:

Ysgogwyr meddwl

- Ymgysylltwch â thrigolion lleol.
 - Datblygwch falchder cymunedol.
 - Cysylltwch bobl â rhwydweithiau a grwpiau sydd eisoes mewn bodolaeth.
 - Cynyddwch ffocws eich awdurdod lleol.
 - Cynigiwch fwy weithgareddau fyth mewn mannau gwyrdd.
- Adolygwch eich strategaeth seilwaith gwyrdd neu'ch polisiau mannau gwyrdd a gofynnwch sut bydd gweithgarwch gwirfoddoli yn eich helpu i gyflawni'n erbyn y rhain.
 - Adolygwch eich rhaglen wirfoddoli man gwyrdd presennol a gofynnwch pwy sy'n gwirfoddoli, ym mhle a phwy sy'n ei hwyluso.

Y prif rwystr rhag gwirfoddoli yw'r amharodrwydd i wneud ymrwymiad parhaus

Time Well Spent 2023



Mae 60% o wirfoddolwyr ffurfiol wedi gwirfoddoli i sefydliad cymdeithas sifil/ trydydd sector, a dim ond 23% sydd wedi gwirfoddoli i sefydliad sector cyhoeddus

Time Well Spent 2023

Strategaeth a dull *parhad*

- Deall anghenion, cymhellion pobl i wirfoddoli a'u rhwystrau rhag gwirfoddoli:

Ysgogwyr meddwl


- Arolygwch y rhai sy'n gwirfoddoli ar hyn o bryd
- Arolygwch y rhai nad ydynt yn gwirfoddoli ar hyn o bryd.
- Adolygwch unrhyw ymchwil gyhoeddedig.

- Meddyliwch am ffyrdd y gallwch ysbrydoli pobl i gymryd rhan a goresgyn rhwystrau cyffredinol fel diffyg amser a diffyg ymwybyddiaeth, a rhwystrau penodol fel amharodrydd i wirfoddoli i'r cyngor lleol.
- Penderfynwch os ydych am arwain y rhaglen wirfoddoli man gwyrdd neu gydweithio â sefydliad arall:

Ysgogwyr meddwl

- Os ydych yn penderfynu cydweithio, dylech eu cynnwys nhw yn y prosesau cynllunio strategol a sefydlu'r rhaglen.

- Cymharwch wahanol fathau o fodelau gwirfoddoli a phenderfynwch ba un sy'n gweithio orau i fodloni eich anghenion. Mae ymchwil yn dangos y gallai gwahanol bobl a mannau gwyrdd fod angen gwahanol fodelau.




Dywedodd 21% o bobl a oedd wedi ystyried gwirfoddoli ond wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen mai'r rheswm am hynny oedd bod gofyn iddynt roi mwy o'u hamser na allant ymrwymo iddo

Time Well Spent 2023


Strategaeth a dull *parhad*

Dyma enghraifft o'r mathau o fodolau gwirfoddoli y gallech eu dwyn ynghyd mewn rhaglen dinas gyfan...



Mae 30% o bobl nad ydynt yn gwirfoddoli yn dweud bod hyblygrwydd yn allweddol iddynt ymgymryd â rôl wirfoddoli

Time Well Spent 2023



Mae 44% o oedolion yn cymryd rhan mewn gwirfoddoli anffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn o gymharu ag 16% sy'n cymryd rhan mewn gwirfoddoli ffurfiol

Arolwg Bywyd Cymunedol 2023/24

Gallu a strwythur

Mae'r cam hwn yn eich helpu i ganolbwyntio ar nodweddion ac adeiladwaith mewnol eich rhaglen wirfoddoli, gan ystyried pwy all ei chyflwyno a beth sydd ei angen i sicrhau ei llwyddiant.


Dyma bwyntiau gweithredu allweddol i'w helpu i ddatblygu:

- Ystyriwch ba newidiadau sefydliadol a diwylliannol sydd eu hangen o fewn eich awdurdod lleol i gyflwyno rhaglen wirfoddoli lwyddiannus.
- Dylech wybod pa ddangosyddion perfformiad allweddol y byddwch yn eu defnyddio i fesur y newidiadau hyn.
- Byddwch yn realistig o ran faint allwch ei gyflawni gyda gwirfoddolwyr a pha systemau cymorth eraill bydd angen ichi eu rhoi ar waith.
- Ystyriwch ba weithgareddau gwirfoddoli sydd eu hangen i gyflawni buddion cyfartal i'ch awdurdod lleol, rhanddeiliaid, cymunedau a byd natur:

Ysgogwyr meddwl

- Seiliedig ar anghenion (megis codi sbwriel neu chwynnu).
- Seiliedig ar leoliad (megis tocio llwyni neu arddio arbenigol).
- Seiliedig ar brosiect (megis plannu coed neu greu nodweddion newydd).

Mae gwirfoddolwyr yn gyfrifol am y mwyafrif helaeth o wasanaethau a ddarperir gan y RNLI, gan gynnwys achub bywydau ar y môr




Gallu a strwythur *parhad*

- Llunio cynllun rheoli a hyfforddi ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Mae'n well goramcangyfrif na thanamcangyfrif y sgiliau a'r amser sydd eu hangen i sefydlu a chynnal eich rhaglen wirfoddoli.
- Penderfynwch p'un a yw'r person sy'n gyfrifol am drefnu'r rhaglen wirfoddoli yn rôl newydd neu'n rhan o rôl bresennol..
- Ystyriwch sut all strwythur eich rhaglen wirfoddoli gyd-fynd â gwaith eich tîm man gwyrdd.
- Ystyriwch sut i dyfu eich rhaglen.



Dyma sut allai rhaglen wirfoddoli dinas gyfan ffynnu dros amser...



Systemau a phrosesau

Mae'r cam hwn yn eich helpu i blotio llwybr hygyrch ar draws y rhaglen wirfoddoli, gan sicrhau bod yr holl bobl, systemau a phrosesau wedi'u cysylltu, eu cyfarparu, a'u cefnogi.

Dyma rai pwyntiau gweithredu allweddol i ddatblygu'r cysylltiadau hynny:

- Adolygwch weithgareddau gwirfoddoli presennol o fewn eich awdurdod lleol i ddysgu pa wasanaethau sydd eisoes yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, pa brosesau a ddefnyddir ganddynt a pha adborth maent yn ei gael.
- Sicrhewch fod eich prosesau presennol yn gallu ymgysylltu a galluogi gwirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd:

Ysgogwyr meddwl

- Ydyn nhw'n cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl a chorfforol?
 - Ydyn nhw'n gwrthsefyll rhwystrau diwylliannol sy'n atal pobl rhag gwirfoddoli?
 - Ydych chi wedi profi'r broses gyda'ch cynulleidfa (dylai fod mor syml ag archebu sesiwn yn y gampfa)?
-
- Siaradwch â sefydliadau galluogi sy'n gweithio â phobl o wahanol gefndiroedd a diwylliannau, yn ogystal â phobl ag anghenion ychwanegol i'ch galluogi i wirioneddol deilwra eich prosesau i'ch cynulleidfa.



Mae llai o wirfoddolwyr bellach yn teimlo bod eu grŵp yn cynnwys amrywiaeth eang o gefndiroedd a diwylliannau

Time Well Spent 2023

Systemau a phrosesau *parhad*

- Penderfynwch ba weithdrefnau iechyd a diogelwch sydd eu hangen arnoch:

Ysgogwyr meddwl


- Asesiadau Risg (e.e. pa weithgareddau all gwirfoddolwyr eu gwneud a dan ba amgylchiadau? Pa gamau diogelu sydd angen eu rhoi ar waith? Sut mae asesiadau risg yn cael eu cofnodi a'u monitro?)
 - Yswiriant (e.e. pa lefel o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sydd ei hangen? A fydd gwirfoddolwyr yn gyrru cerbydau ar eich rhan?).
 - PPE (e.e. pa gyfarpar diogelwch - fel festiau hi-vis a menig - sydd eu hangen ar wirfoddolwyr?).
 - Hyfforddiant (e.e. pa hyfforddiant cychwynnol sydd ei angen ar wirfoddolwyr? Pa dasgau sy'n gofyn am hyfforddiant arbenigol? Pa mor aml mae gwirfoddolwyr angen hyfforddiant gloywi?).
- Dylech ymchwilio i systemau rheoli gwirfoddolwyr a fydd yn galluogi eich gwirfoddolwyr i reoli eu gwaith gwirfoddoli eu hunain, arbed amser i chi a'ch galluogi i ehangu gweithgareddau yn y dyfodol:

Ysgogwyr meddwl

- Ystyriwch swyddogaeth y system a pha mor hawdd yw ei defnyddio i wirfoddolwyr a gweinyddwyr.



Systemau a phrosesau *parhad*



Dyma enghraifft wych o Nottingham Green Guardians...

Beth maen nhw'n ei ddefnyddio?

Porth gwirfoddoli traws-wasanaeth a elwir yn Assemble.

Pwy sy'n ei ddefnyddio?

Mae'r cyngor a grwpiau mannau gwyrdd yn ei ddefnyddio i hyrwyddo cyfleoedd yn yr un man.



Beth all ei wneud yn dda?

Mae ganddo amrywiaeth o fodiwlau i'ch helpu i reoli eich rhaglen:

- Gwirfoddolwyr – yn cadw cronfa ddata o'ch gwirfoddolwyr cofrestredig fel bod modd iddynt gael eu hyswrio yn ôl yr angen.
- Rolau – yn rhestru rolau gwirfoddoli sydd ar gael, yn cynnwys cyfrifoldebau a chod ymddygiad.
- Gweithgareddau – yn rhoi manylion am y rhaglen bresennol o weithgareddau gwirfoddoli.
- Calendr – yn cynnwys gweithgareddau untro a gweithgareddau ailadroddus y gellir eu paru a'u hanfon at wirfoddolwyr addas.
- Ap dyfais symudol - yn galluogi'r tîm i wirio cofrestriadau ar grwydr, ac yn galluogi'r gwirfoddolwyr i gofrestru ar gyfer sesiynau.

Beth allai wneud yn well?

- Nid yw pob gwirfoddolwr yn teimlo'n gyfforddus yn cofrestru yn y ffordd yma – felly dylech ganiatáu capasiti tîm ychwanegol i'w harwain drwy'r broses.
- Nid yw gwirfoddolwyr bob amser yn cofrestru ar gyfer pob sesiwn maent yn ei mynychu – felly mae'n bosibl y bydd angen cofnodion papur arnoch i gadw cofnod o niferoedd.
- Mae costau'r system yn dibynnu ar nifer y gwirfoddolwyr sy'n cofrestru – felly mae angen tacluso data yn rheolaidd.

"Gwelwn ei fod yn arbed amser yn y pen draw os ydym yn annog darpar wirfoddolwyr i ymuno â sesiwn cyn iddyn nhw gofrestru ar gyfer y system."

– Danni Green, VGwirfoddolwr a Chydlynnydd Plannu Coed yng Nghyngor Dinas Nottingham.

Brandio ac ymwybyddiaeth

Mae'r cam hwn yn eich helpu i roi eich rhaglen wirfoddoli ar y map, gan roi hunaniaeth glir iddi gyda'r llais cywir i ddenu, ymgysylltu a chadw gwirfoddolwyr ar gyfer y daith hirdymor.

Dyma bwyntiau gweithredu allweddol i greu argraff::

- Cysylltwch â'ch timau cyfathrebu ac ymgysylltiad rhanddeiliaid i elwa ar eu harbenigedd ac alinio eich gwaith.
- Trafodwch gyda nhw p'un a ddylai eich rhaglen wirfoddoli ddilyn brand yr awdurdod lleol neu fabwysiadu brand unigryw ei hun.
- Gweithiwch gyda'ch cynulleidfa i ddatblygu a phrofi eich syniadau brandio..
- Siaradwch â'ch tîm cyfreithiol ynglŷn â gwiriadau hawlfraint a nod masnach, os ydych yn creu brand newydd.
- Lluniwch strategaeth ymgysylltiad rhanddeiliaid a recriwtio gwirfoddolwyr tair i bum mlynedd er mwyn helpu i flaenoriaethu'ch gwaith cyfathrebu.



Brandio ac ymwybyddiaeth *parhad*

- Lluniwch gynllun cyflawni chwech i ddeuddeg mis sy'n amlinellu sut byddwch yn cyflawni'r strategaeth yn y tymor byr:

Ysgogwyr meddwl

- Ymchwiliwch i ddigwyddiadau a gweithgareddau lle rydych yn debygol o gyfarfod darpar wirfoddolwyr a chefnogwyr.
 - Defnyddiwch wefannau, cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau i ddiweddarau gwirfoddolwyr a helpu gwirfoddolwyr newydd i ddod o hyd i chi.
 - Meddyliwch sut byddwch yn mesur llwyddiant eich ymgyrchoedd brand ac ymwybyddiaeth.
- Ystyriwch ba adnoddau sydd eu hangen i gyflawni eich cynlluniau a ph'un a oes modd neilltuo unrhyw dasgau i rolau presennol.
 - Meddyliwch sut i hyrwyddo'r platfform yn y camau cynnar cyn iddo ddod yn gyfarwydd. Er enghraifft, pa sianeli cyfathrebu presennol allech chi eu defnyddio?




Dyma enghraifft wych o'r manteision a'r anfanteision o frandio unigryw gan Nottingham Green Guardians...

Manteision

- Galluogi gwirfoddolwyr i gysylltu â'r strategaeth a'r manau gwyrdd yn annibynnol o'r cyngor drwy weithredu bron fel sefydliad anllywodraethol.
- Galluogi gwirfoddolwyr i gadw ar flaen y wybodaeth ddiweddaraf a dod o hyd i gyfleoedd newydd yn haws drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol ar wahân.
- Lleddfu unrhyw ragdybiaethau sydd gan drigolion am wirfoddoli i'w hawdurdod lleol.

Anfanteision

- Rhoi'r argraff bod diffyg cefnogaeth a chymorth corfforaethol.
- reu arwahanrwydd posibl o fewn yr awdurdod lleol.



Dysgwch ragor am sut mae Cyngor Dinas Nottingham wedi creu grym er lles y ddinas gyfan ar wefan [Nature Towns and Cities](#).

Os oes angen fformat arall arnoch, neu os oes gennych gwestiynau i'r tîm y tu ôl i'r canllaw hwn, anfonwch e-bost atom ar info@naturetownsandcities.org.uk



Cydnabyddiaeth llun: ©National Trust Images/James Dobson, Paul Harris, Trevor Ray Hart, Rob Stothard

